

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,
Nos Lun, 24 Gorffennaf 2017.

1. Croeso ac ymddiheuriadau a ddatgan diddordeb.

Presennol:

Mr A Jones (Cadeirydd), Mrs Linda Jones LJ, Dr Edward Jones EJ, Mr Victor Owen VO, Mrs EAB Thomas EABT, Miss JA Roberts JAR, Cynhorwr Llinos Huws LH.

Ymddiheuriadau. Mr O G Roberts, Mr Aled Ifan, Ms Cari Jones.

2. Gwybodaeth gan Squadron Leader Dave Williams, RAF Valley.

Mynychodd i gadarnhau trefniadau'r RAF yn ystod yr Eisteddfod. Bydd yr RAF yn gwneud defnydd o'r rhedfa hirach mewn ymgais i gadw sŵn i'r lleiafswm, ond nododd y gallai rhai achosion ddigwydd gyda newidiadau mewn trefniadau. Diolchodd y cadeirydd iddo ar ran yr RAF eu hystyriaeth o anghenion yr Eisteddfod.

3. Annerch cyhoeddus gan Mr Arfon Roberts- Amlinelliad byr o'r sylwadau.

Nododd AR ei fod yn gyfyngedig yn yr hyn a wyddai. Gwnaeth gyhuddiad fod neb wedi bod ogwmpas y busnesau lleol, a bod KH wedi trefnu cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd y Pentref. Credai dylai fod taflenni wedi eu cyflwyno, a ni ddylai'r cyfarfod yn y neuadd fod wedi ei gau. Wedi iddo dderbyn llythyr gan yr Eisteddfod, credai fod angen atebion o hyd. Credai fod presenoldeb cyfiaethydd yn y cyfarfod yn wastraff arian. Cyflwynodd ddeiseb o "Dim hyder" yn y gadair. Derbyniwyd y ddeiseb, gyda chytundeb i'w chofnodi yn y cofnodion ond nododd y clerc mae dim ond aelodau o'r cyngor cymuned sydd a unrhyw bwerau i newid trefn y cyngor.

Er nad oedd dyletswydd i ymateb i'r sylwadau ar y pryd, ymatebodd y Cadeirydd drwy egluro nid y cyngor cymuned oedd yn gyfrifiol am drefniadu'r Eisteddfod na'r diffyg gwybodaeth canfyddedig. Nid oedd y cyngor cymuned wedi rhoi gwadd i'r Eisteddfod, ac nid oedd y cyngor wedi cael unrhyw mewnbwn ogwbwl yn y trefniadau, lleoliad na threfniadau cludiant. Nododd y cadeirydd na'r tro cyntaf roedd yn ymwybodol o bwriad yr Eisteddfod i ddod i Fodedern oedd wrth fynychu pwyllgor Eisteddfod fel "Eisteddfodwr" nid fel cynrychiolydd y cyngor cymuned ac felly roedd unrhyw ddieter ynlyn a'r trefniadau wedi ei gyfarwyddo i'r lle anghywir. Nododd Cynhorwr Llinos Huws ei bod hi a'r ddau aelod arall o Gyngor Sir yn gweithredu ar ran pobol lleol ac yn anffodus nid yw pob ateb yn plesio ar bob achlusur.

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Nos /evening: (01407) 749 162
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

Cyngor Cymuned Bodedern



4. 10 Cwestiwn gan Cynghorwr JAR ar ran Mr Arfon Roberts.

Roedd Mr Arfon Roberts wedi darparu cwestiynnau ar gyfer y Cyngor, ac fe ofynnodd JAR nhw ar ei ran o. Copiau o'r cwestiynnau ac atebion gan y clerc wedi ei darparu ar wahan.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau fynegi eu cefnogaeth i'r ddeiseb, ond nododd **EABT** ei fod wedi ei ethol yn gadeirydd. Nid oedd unrhyw un o'r aelodau wedi dangos unrhyw newid yn eu barn na'u dymuniad iddo fod yn y gadair.

5. Cofnodion Mehefin 2017 a unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

5.1 Nododd y clerc fod y blodau yn cael eu gosod wythnos yma

5.2 Nododd y clerc syndod fod cynrychiolwr y Cyngor Sir wedi dweud nad oedd Lon Dywyll wedi cael ei mabwysiadu gan y Cyngor Sir. Y clerc i wneud ymholiadau pellach am statws y lon a bwriad y Cyngor ar gyfer y dyfodol.

5.3 Nodwyd fod Mon Grass Cutting sy'n torri'r fynwent hefyd yn rhoi un toriad o'r gwrychynoedd y flwyddyn, ac byddent yn gwneud yn fuan. Y clerc i holi am ddyfnbris eu torri mwy aml.

5.4 Nodwyd fod yr arwyddion newydd i fod i gael eu gosod heddiw.

5.5 Nodwyd fod y Cyngor Sir wedi bod o amgylch y pentref gyda chwynladdwr ac yn llenwi tyllau yn y lon.

6. Maes Chwarae/ Ffrindiau Bodedern

Derbwyniwyd dyfnbris o £150 am drin sedd y swing oedd wedi torri. Nodwyd tristwch fod y sedd wedi cael ei fandaleiddio, ac byddai rhaid talu am ei thrwsio. **A.J.** yn cynnig, **EABT** yn eilio.

7. Materion Cynllunio

Gate Farm.

Nodwyd fod cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu ar gyfer trafod y cais, gan fod llawer o ddiddordeb wedi ei fynegi yn y cynlluniau.

8. Gohebiath

Dim wedi dod i law.

Cyngor Cymuned Bodedern



9. Eisteddfod 2017

Diolchodd y cadeirydd i bawb ar y pwyllgor am eu gwaith called i godi arian ac i drigolion y pentref a oedd wedi bod yn gefnogol.

Nodwyd **EJ** fod grant Horizon wedi galluogi diwrnod o hwyl yn yr Ysgol Gynradd, ac y byddai murlun yn cael ei arddangos ar faes yr Eisteddfod. Nododd **EABT** ei bod yn braf iawn gweld ymrwymiad pobol ifanc y pentref i'r Eisteddfod yn wyneb y gwrthwynebiad.

Nododd **JAR** ei bod wedi cael ymateb i'r cwestiwn pam oedd y pecyn addysg wedi ei lansio yn Ysgol Gynradd Bryngwran. Nodwyd fod yr ysgol wedi gwneud yn dda iawn gyda'r siarter iaith.

10. Taliadau i'w gwneud.

Mon Grass Cutting	MGC2355	£400.00	Rhif siec 200019
-------------------	---------	---------	------------------

Cyflog Clerc	Ebrill, Mai, Mehefin	£600.00	Rhif siec 200020
--------------	----------------------	---------	------------------

11. Unrhyw fater arall.

Nododd **LH** ei bod yn falch iawn o chael ei ethol fel cynghorwr am 5 mlynedd arall, a diolchodd y cadeirydd iddi am ei ymrwymiad.